**Rhif: WG28957**

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

# Sefydlu Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol

Dyddiad cyhoeddi: 11 Awst 2016
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 3 Tachwedd 2016

OGL © Hawlfraint y Goron

**Trosolwg**

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn ceisio ymgysylltiad ehangach ynglŷn â sefydlu pwyllgor ymgynghorol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru.

**Sut i ymateb**

Dylai ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn e-bostio / postio i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn 3 Tachwedd, 2016 fan bellaf.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

**Manylion Cysylltu**

Am ragor o wybodaeth neu gopïau ychwanegol, cysylltwch â:

Cangen Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol

Llywodraeth Cymru
Trydydd Llawr (De)
Parc Cathays – 2
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: FloodCoastalRisk@wales.gsi.gov.uk

ffôn:02920 825175

**Diogelu Data**

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr

unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, ticiwch y blwch isod. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## 1. Y Rhagair

Mae Adran 81 (1) Deddf yr Amgylchedd 2016 (Deddf 2016) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru sefydlu Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol. Nod y pwyllgor newydd hwn yw disodli Pwyllgor Rheoli Llifogydd cyfredol Cymru, y cafodd ei drefniadau eu sefydlu gan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (Deddf 2010), a Rheoliadau'r Pwyllgorau Llifogydd ac Erydu Arfordirol Rhanbarthol (Cymru a Lloegr) 2011 (Rheoliadau 2011).

## 2. Trefniadau presennol

Cafodd Pwyllgorau Llifogydd ac Erydu Arfordirol Rhanbarthol eu sefydlu ar eu ffurf bresennol o dan Adrannau 22 i 26A Deddf 2010 a Rheoliadau 2011. Yng Nghymru, adwaenir y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol Rhanbarthol fel Rheoli Perygl Llifogydd Cymru.

Amlinellir rôl ganolog Rheoli Perygl Llifogydd Cymru yn Adran 23 Deddf 2010. Diffinnir ei rôl o ran yr hyn y mae'n rhaid i Gyfoeth Naturiol Cymru ei wneud ynglŷn â'i raglen a'i gyllid, a'r hyn na chaiff ei wneud heb gydsyniad Rheoli Perygl Llifogydd Cymru.

Mae Adran 23 yn nodi mai cyfrifoldeb cyfunol Rheoli Perygl Llifogydd Cymru yw cydsynio â'r canlynol: rhaglen rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol Cyfoeth Naturiol Cymru; unrhyw ardoll sy’n cael ei chodi gan Gyfoeth Naturiol Cymru o dan Adran 17 Deddf 2010; ac unrhyw arian sy’n cael ei wario gan Gyfoeth Naturiol Cymru o dan Adran 118 Deddf Adnoddau Dŵr 1991.

Mae Adran 23 (1) yn nodi ei bod yn rhaid i Gyfoeth Naturiol Cymru ymgynghori â Rheoli Perygl Llifogydd Cymru ynglŷn â'r ffordd maent yn bwriadu cyflawni eu swyddogaethau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn rhanbarth Rheoli Perygl Llifogydd Cymru, ac ystyried unrhyw sylwadau (boed hynny rhai a wnaed mewn ymateb i ymgynghoriad neu fel arall) a wneir gan Reoli Perygl Llifogydd Cymru ynglŷn â'r gwaith o gyflawni eu swyddogaethau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn y rhanbarth hwnnw.

O dan Adran 23 (2) Deddf 2010, ni ddylai Cyfoeth Naturiol Cymru weithredu'r rhaglen ranbarthol heb gydsyniad Rheoli Perygl Llifogydd Cymru.

## 3. Rhesymau dros y Newid

Yn unol â darpariaethau Deddf 2016, rhoddwyd y pŵer i Weinidogion Cymru er mwyn iddynt lunio rheoliadau a fydd yn diddymu Rheoli Perygl Llifogydd Cymru, a sefydlu Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol newydd (y Pwyllgor newydd). Y bwriad yw sefydlu pwyllgor newydd sydd â rôl ymgynghorol ehangach, sy'n cynnwys yr holl waith rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru.

Mae'r gwaith o reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru yn ehangach na'r cyfrifoldebau sy'n dod o dan raglen rheoli perygl llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae Deddf 2010 yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau pob Awdurdod Rheoli Risg, sydd yng Nghymru yn cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru a'r 22 awdurdod lleol sy'n ymddwyn fel Awdurdodau Rheoli Perygl Llifogydd Lleol Arweiniol ac awdurdodau priffyrdd, byrddau draenio mewnol, a chwmnïau dŵr a charthffosiaeth.

Yn ogystal, mae gan randdeiliaid allanol, gan gynnwys Network Rail a thirfeddianwyr preifat, rôl yn y gwaith o gynnal a chadw rhai asedau a leolir mewn ardaloedd lle mae perygl llifogydd neu erydu, neu'n agos iddynt. Mae'r gwaith o gyflawni Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (y Strategaeth Genedlaethol) yn cynnwys gweithio ar draws amrediad o sefydliadau, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, awdurdodau lleol, Network Rail a Dŵr Cymru Welsh Water.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio ymgysylltiad ehangach ynglŷn ag agweddau allweddol ar y Pwyllgor newydd, er mwyn sicrhau ei fod yn gallu cyflawni ei nod o ddarparu cyngor cadarn, cywir a chynrychiadol ar gyfer Gweinidogion Cymru ynghylch pob agwedd ar y gwaith o reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. Er mwyn i'r Pwyllgor newydd ymgymryd â'r dasg hon yn effeithiol, mae'n bwysig bod ei drefniadau llywodraethu, ei gynrychiolaeth a'i gysylltiadau â sefydliadau eraill yn addas i'r diben.

## 4. Cynigion ar gyfer y Pwyllgor newydd

Nesaf mae chwe chwestiwn ymgynghori am wahanol agweddau ar y Pwyllgor newydd, wedi eu dilyn gan ffactorau i'w hystyried ynglŷn â phob cwestiwn.

### 4.1 Diben a chwmpas y Pwyllgor newydd

***Cwestiwn ymgynghori 1: Ar wahân i'r nod lefel uchel o roi cyngor i Weinidogion Cymru ynglŷn â materion yn ymwneud â'r gwaith o reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol, pa swyddogaethau eraill y gellir eu gosod neu eu rhoi i'r Pwyllgor newydd?***

4.1.1 Mae Deddf 2016 yn gofyn i'r Pwyllgor newydd roi cyngor i Weinidogion Cymru ynglŷn â materion yn ymwneud â'r gwaith o reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. Felly, mae'n bosibl cynnwys pob agwedd ar lifogydd yng nghwmpas y Pwyllgor newydd (gan gynnwys codi ymwybyddiaeth, gwaith paratoi a chydnerthedd cymunedol rhag llifogydd). Fe fyddai'n fanteisiol i'r Pwyllgor newydd feddu ar gwmpas newydd er mwyn darparu gwasanaeth effeithiol. Yn ystod y cam hwn, byddai'n fanteisiol derbyn safbwyntiau ynglŷn â pha agweddau penodol ar lifogydd ac erydu arfordirol a ddylai gael eu harchwilio gan y Pwyllgor newydd.

4.1.2 Gwahoddir safbwyntiau ynglŷn â ph'un a ddylai'r Pwyllgor newydd ddarparu cyngor ar y gwaith o weithredu rhaglen rheoli perygl llifogydd genedlaethol, gan gynnwys cynlluniau sy'n cael eu cyflawni trwy Lywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, awdurdodau lleol, cwmnïau gwasanaethau neu gymunedau cymunedol, yn ogystal â'r Rhaglen Rheoli Risg Arfordirol sydd yn yr arfaeth.

4.1.3 Fel arall, gallai'r Pwyllgor newydd ddarparu cyngor ar lefel uwch ynglŷn â chyfeiriad strategol y rhaglen rheoli perygl llifogydd genedlaethol a'r Rhaglen Rheoli Risg Arfordirol.

4.1.4 A ddylai Gweinidogion Cymru a Llywodraeth Cymru osod y rhaglen waith ar gyfer y Pwyllgor newydd? Byddai hyn yn rhoi'r gallu i Weinidogion Cymru gysoni'r cyngor a gafwyd gan y Pwyllgor newydd â'r rhaglen waith a blaenoriaethau ar gyfer rheoli llifogydd sydd yn y gweill. I'r gwrthwyneb, gallai hyn gyfyngu defnyddioldeb y Pwyllgor newydd yn y gwaith o gynrychioli'r sector rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol, wrth beri'r potensial i golli'r cyfle i fanteisio i'r eithaf ar wybodaeth ac arbenigedd yr aelodau.

4.1.5 Fel arall, gallai'r Pwyllgor newydd sefydlu ei raglen ei hun ar gyfer gweithgarwch ymgynghorol y mae'n bosibl ei bod yn adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol uniongyrchol a thymor hwy, gan gynnwys ymateb i ymgynghoriadau a nodi anghenion ymchwil ac arferion gorau cyfredol. Gallai'r opsiwn hwn fod yn well o ran galluogi'r Pwyllgor newydd i gynrychioli safbwyntiau a diddordebau'r

sector rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol ehangach. Fodd bynnag, credir y bydd angen rhywfaint o gyfeiriad gan weinidogion er mwyn sicrhau bod y cyngor perthnasol yn cael ei ddarparu, pe bai dull o'r fath yn cael ei fabwysiadu.

## 4.2 Cynrychiolaeth a maint y Pwyllgor newydd

***Cwestiwn ymgynghori 2: Ynglŷn ag aelodaeth y Pwyllgor newydd:***

- ***a) Pa mor fawr ddylai'r aelodaeth fod?***
- ***b) Pa sefydliadau ddylai gael eu cynrychioli?***
- ***c) Pa sgiliau a/neu wybodaeth y dylid eu ceisio?***
- ***d) Beth fyddai'r prif gysylltiadau â sefydliadau/byrddau/pwyllgorau eraill?***
- ***e) A ddylai'r Pwyllgor newydd gynnwys aelodau wedi eu penodi, aelodau cynrychiadol, neu elfen o'r ddau?***

4.2.1 Gallai fod gan y Pwyllgor newydd gadeirydd annibynnol. Byddai hyn yn sicrhau bod y Pwyllgor newydd yn gallu darparu safbwynt annibynnol ar gyfer Gweinidogion.

4.2.2 Fel arall, gallai'r Pwyllgor newydd gael ei gadeirio gan uwch-swyddog. Mae hyn â'r potensial i sicrhau cysylltiad agosach â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r rhaglen rheoli perygl llifogydd genedlaethol. Gallai'r opsiwn hwn, fodd bynnag, effeithio ar annibyniaeth y Pwyllgor newydd.

4.2.3 Bydd nifer ac amrywiaeth yr aelodau sy'n cael eu penodi'n hanfodol i allu'r Pwyllgor newydd i gynrychioli'r sector rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. Bydd yn rhaid cael cydbwysedd rhwng sicrhau bod digon o gynrychiolaeth ac arbenigedd i ddarparu gwybodaeth gywir a chynrychiadol, a bod â gormod o aelodau nes bod y Pwyllgor newydd yn mynd yn drwsgl wrth iddo weithredu.

4.2.4 Bydd yn bwysig iawn i'r Pwyllgor newydd gynrychioli amrywiaeth o sefydliadau yn y sector rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. Gellid cyflawni hyn naill ai trwy gynrychiolaeth uniongyrchol ar y Pwyllgor newydd, neu drwy adeiladu cysylltiadau cryf â sefydliadau. Gallai sefydliadau sy'n cael eu cynrychioli'n uniongyrchol gynnwys:

- Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC);
- Awdurdodau lleol a/neu Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru;
- Cwmnïau Dŵr Cymru (Dŵr Cymru/Welsh Water, Severn Trent Water a Dee Valley Water);
- Fforymau Cydnerthedd Lleol;
- Network Rail;
- Cynrychiolwyr grwpiau gwirfoddol/cymunedol megis Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru;
- Rhwydweithiau wardeniaid llifogydd.

4.2.5 Er mwyn i'r Pwyllgor newydd gyflawni ei rôl wrth ddarparu cyngor effeithiol, gallai aelodau gael eu penodi am eu profiad a'u harbenigedd ymarferol, yn hytrach nac i gynrychioli sectorau penodol. Felly, bydd safbwyntiau'n cael eu ceisio ynglŷn â meysydd profiad a sgiliau allweddol. Mae'n bosibl y bydd y rhain yn cynnwys y canlynol, er enghraifft:

- Effaith llifogydd ac asesiadau (arfordirol a threfol);
- Ymwybyddiaeth a chydnerthedd cymunedol ynglŷn â llifogydd;
- Buddsoddi mewn isadeiledd;
- Rheoli adnoddau naturiol/perygl llifogydd a rheoli tir;
- Profiad o fod yn warden llifogydd/gwirfoddoli.

## 4.3 Cyfarfodydd a chymorth

***Cwestiwn ymgynghori 3: Pa mor aml dylai cyfarfodydd y Pwyllgor newydd gael eu cynnal, a phwy ddylai ddarparu cymorth ysgrifenyddiaeth?***

4.3.1 Gallai opsiynau ar gyfer amlder cyfarfodydd y Pwyllgor newydd gynnwys unwaith y mis, bob dau fis, yn chwarterol, ddwywaith y flwyddyn, neu unwaith y flwyddyn. Bydd yn bwysig cael y cydbwysedd rhwng cynnal cyfarfodydd y Pwyllgor yn ddigon rheolaidd i feddu ar wybodaeth gyfredol (gan eu sefydliadau cynrychioliadol a Llywodraeth Cymru), ond ar yr un pryd osgoi bod yn ormod o faich ar adnoddau'r sefydliadau cynrychioliadol.

4.3.2 Mae swyddogaeth ysgrifenyddiaeth Pwyllgor newydd Rheoli Perygl Llifogydd Cymru yn cael ei chyflawni gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

## 4.4 Cyfathrebu

***Cwestiwn ymgynghori 4:Sut y dylai'r Pwyllgor newydd gyfathrebu ei gyngor i Weinidogion Cymru?***

4.4.1 O ystyried mai prif swyddogaeth y Pwyllgor newydd yw darparu cyngor ar gyfer Gweinidogion Cymru, mae sut y gwneir hyn yn hanfodol i sicrhau ei fod yn gweithredu'n effeithiol. Mae amryw opsiynau posibl ynglŷn â sut y gellir cyflawni'r ddyletswydd hon.

4.4.2 Gallai Cadair y Pwyllgor newydd gael cyfarfodydd lefel uchel yn uniongyrchol â'r gweinidog yn rheolaidd. Gallai'r rhain gael eu cynnal ar amryw adegau: yn fisol, yn chwarterol, ddwywaith y flwyddyn, neu unwaith y flwyddyn. Bydd angen cael y cydbwysedd rhwng sicrhau bod gan y Gweinidog y wybodaeth ddiweddaraf am farn a rhaglen waith y Pwyllgor newydd, a rhaglen y Gweinidog.

4.4.3 Gallai'r Pwyllgor newydd hefyd baratoi diweddariadau ysgrifenedig ar gyfer y Gweinidog, a allai fod ar gael i'r cyhoedd. Gallai'r rhain, er enghraifft, fod ar ffurf adroddiad blynyddol a fyddai ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Bydd angen cael y cydbwysedd rhwng sicrhau bod gan y Gweinidog y wybodaeth ddiweddaraf am gyngor y Pwyllgor newydd, ac osgoi rhoi baich anghynialadwy ar y Pwyllgor newydd a'i ysgrifenyddiaeth.

## 4.5 Cyflog a thaliadau

***Cwestiwn ymgynghori 5: Mae Deddf 2016 yn caniatáu ar gyfer amryw daliadau i Gadeirydd y Pwyllgor newydd a'i aelodau.***

***a) A ddylai Cadeirydd y Pwyllgor newydd dderbyn cyflog a lwfansau?***
***b) A ddylai aelodau'r Pwyllgor newydd dderbyn lwfansau?***

4.5.1 Gallai Cadair y Pwyllgor newydd dderbyn tâl ar ffurf cyflog, neu gyfraniadau at bensiwn ac iawndal am golli amser yn y swyddfa.

4.5.2 Er mwyn denu ymgeiswyr addas ar gyfer rôl y Cadeirydd, mae'n bosibl y bydd angen talu rhywfaint o gyflog yn ogystal â lwfansau. Fodd bynnag, o ystyried y pwysau sydd ar gyllidebau sector cyhoeddus, byddai'n rhaid i unrhyw dâl fod yn dderbyniol i Weinidogion Cymru.

4.5.3 Byddai'n rhaid cael cydbwysedd addas hefyd os bydd aelodau'n derbyn lwfansau.

## 4.6 Safbwyntiau ychwanegol

***Cwestiwn ymgynghori 6: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw safbwyntiau ynglŷn â materion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, rhowch wybod inni yn y ffurflen isod.***